Penmachno & Dolwyddelan Walks 5/1/08 5:23 PM Page 20

6 Glasgwm

Pellter: 11km / 7 milltir, tua 4 - 5 awr
Parcio a man cychwyn: Ar ddechrau'r llwybr beicio, Cyf grid: SH787499
Graddfa: Cymedrol, gan ddringo a disgyn am ychydig nifer o weithiau
Crynodeb: Dyffryn hardd a choedwigoedd.

Y Daith Gerdded

1. Croeswch y ffordd a mynd i lawr y dreif gyferbyn. Ar y gyffordd 'T', ewch i'r chwith ar hyd y llwybr llydan. Ewch drwy'r gât a thueddu i'r dde heibio'r sgubor goch yna i'r chwith drwy'r gât. Dilynwch y llwybr llydan heibio i'r tŷ gwyn ac ar lan yr afon yr holl ffordd i Benmachno. Ewch ymlaen ble mae'r llwybr llydan yn ymuno â'r ffordd ac yna ewch i'r chwith dros y bont. Wrth yr Eagles ewch ymlaen, arwyddedig Tŷ Mawr. Ewch ymlaen am 500m, gan fynd heibio Plas Penmachno ar y dde. Ewch i'r chwith ar y fforch (arwydd dim ffordd drwodd) ac ymlaen am ryw 2km i ddiwedd y ffordd. Ewch drwy gât Blaen Glasgwm Isaf a thueddu i'r chwith gyda'r tŷ ar eich llaw dde. Croeswch y bont. Ar gyffordd y llwybr, ewch i'r dde. Ewch i'r chwith i fyny dreif y tŷ nesaf (Tyddyn Du), gan gadw'r tŷ ar eich llaw dde ac ewch dros y gamfa i mewn i'r goedwig. Ewch i'r chwith ac yna i'r dde ar unwaith gan ddringo i fyny drwy'r goedwig a dilyn y saethau melyn. Croeswch y ffordd goedwig a mynd ymlaen drwy'r rhwystrau pren. Ewch i'r dde ar hyd y ffordd goedwig nesaf ac yna'n syth ymlaen ar y groesffordd. (Cymerwch ofal o'r beiciau sy'n defnyddio'r llwybr hwn). Ymhen 300m trowch i'r chwith ar y saeth felen. Croeswch y llwybr llydan nesaf a mynd ar i lawr ar lwybr naturiol ar draws ochr y bryn i lwybr llydan arall. Ewch i'r chwith a dilyn y llwybr hwn am tua 100m (Llwybr beiciau eto).

2. Trowch yn siarp i'r dde wrth yr arwydd a mynd ar i lawr ar lwybr troellog. Ewch i'r chwith i mewn i'r goedwig ar y saeth felen a dilyn y llwybr amlwg drwy'r coed i groesi'r gamfa sydd ar derfyn y goedwig ac i'r cae. Ewch dros y cae i'r gât ac ymlaen gan fynd heibio Llechwedd-Hafod-Uchaf ar y llaw dde. Yn union cyn cyrraedd y fferm nesaf, trowch i'r dde drwy'r gât a dilyn y dreif i'r ffordd. Ewch i'r dde dros y bont yna i'r chwith drwy'r gât haearn.

3. Tueddwch i'r chwith a dilyn y llwybr sy'n cydredeg â'r afon. Ewch drwy'r gât wrth y stabl a cherdded dros ddau gae. Ewch drwy'r gât i fuarth a dilyn y dreif. Cyn cyrraedd wal gerrig trowch i'r dde drwy'r gât ac yna i'r hanner-chwith gan gadw'r hen wal grom ar eich llaw chwith. Dilynwch yr arwyddion drwy 2 gât o bedair gan droi i'r chwith drwy 2 gât fach sydd yn y canol. Anelwch am y bont, ond peidiwch â'i chroesi. Ewch ar draws ddau gae a mynd drwy'r bwlch yn y wal gerrig. Ewch i'r chwith a chroesi'r bont bren. Ewch dros y gamfa ysgol a throi i'r dde i gerdded ar hyd y ffordd ac yn ôl i'r man cychwyn.



Bu porthmyn yn gyrru miloedd o wartheg a moch o Orllewin Cymru dros y mynyddoedd i farchnadoedd Lloegr. Yn ôl cofnodion yr 18fed ganrif, roedd chwech o borthmyn ym mhob un o bentrefi Dolwyddelan, Penmachno ac Ysbyty Ifan. Byddai pob porthmon yn hurio 6-10 o ddynion i yrru'r anifeiliaid.

Drovers moved thousands of cattle and pigs from West Wales across the mountains to markets in England. 18th century records show that there were six cattle dealers in each of the villages of Dolwyddelan, Penmachno and Ysbyty Ifan. Each dealer probably hired 6-10 hands to drive their herds.

Distance: 11km / 7 miles, allow 4-5 hrs
Parking and start: At bike trail start, grid ref: SH787499
Grade: Moderate with several short ascents and descents
Summary: Scenic valley and forest

The Route

1. Cross road and go down drive opposite. At T-junction turn left along the track. Go through gate and bear right past red barn then left through gate. Follow track past a white house and then alongside the river all the way to Penmachno. Continue ahead where track joins the road then turn left over bridge. At Eagles Pub, continue ahead, signed Ty Mawr. Continue for 500m, passing Penmachno Hall. Bear left at road fork (no through road sign) and continue for about 2km to end of lane. Go through the gate of Blaen Glasgwm Isaf and bear left, passing house on right, to cross the bridge. At track junction turn right. Turn left up drive of next house, Tyddyn Du, keeping to left of house and cross a stile into forest. Go left then quickly right, climbing through forest and following yellow arrows Cross a forest track and continue ahead through wooden barriers. Turn right along the next forest track then straight on at a track crossroads (NB Beware of cyclists as the route joins the bike trail for a short section). After 300m turn left at yellow marker. Cross another track and descend on natural path across hillside to another track. Turn left and follow this track for about 100m (Bike trail again).

2. Turn sharp right at marker and descend on winding path. Turn left into the forest at yellow arrow and follow clear path through forest to cross a stile at the forest edge. Cross field to gate then continue along track passing Llechwedd-hafod-uchaf on right. Just before reaching the next farm turn right through a gate and follow drive to road. Turn right over bridge then left through an iron gate.

3. Bear left and follow the path running parallel to the river. Go through gate by stable and walk across two fields. Go through gate onto the farmyard then follow the farm drive. Before a stone bridge turn right through a gateway and walk half-left, keeping a curving old wall on the left, Follow markers through 2 gates of 4, turning left through 2 smaller gates in the middle. Head in direction of footbridge but do not cross. Walk across two fields then go through gap in stonewall ahead. Turn left and cross wooden footbridge. Continue over ladder stile then turn right and walk along the road back to the start.